

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Ian Hughes ac
Anwen Worthy o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Archwiliodd ein hadolygiad berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood. Dechreuodd hyn gyda'r Cytundeb Cydweithredol a wnaed rhwng Lywodraeth Cymru a Pinewood ym mis Chwefror 2014 i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru. Rydym yn nodi'r ffeithiau sy'n arwain avt ddod â'r cytundeb hwn i ben, yn ogystal â manylion y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ar ôl hynny a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2017.

Adroddiad cryno	6
Adolygiad ynglŷn â beth yw hwn	6
Canfyddiadau allweddol	8
Rhan 1 – Sefydlu Cytundeb Cydweithredol Llywodraeth Cymru â Pinewood ym mis Chwefror 2014	12
Ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cydweithredol â Pinewood i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru	12
Sefydlodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £30 miliwn i fuddsoddi mewn cynyrchiadau ffilm a theledu, a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi prosiectau addas i fuddsoddi ynddynt	22
Rhan 2 – Gweithredu'r Cytundeb Cydweithredol tan fis Hydref 2017	25
Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau i benderfynu pa brosiectau a gyflwynwyd gan Pinewood ddylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi	25
Nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau'r panel	27
Nid oedd Pinewood Studios Wales Ltd yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes hyfyw heb gymorth Pinewood Group Limited	30
Rhan 3 – Y trefniadau rheoli diwygiedig o fis Tachwedd 2017	33
Ym mis Hydref 2017, terfynodd Llywodraeth Cymru y Cytundebau Prydlesu a Chydweithredol â Pinewood, a gohiriwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau	33
Ym mis Tachwedd 2017, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'gytundeb gwasanaethau rheoli' tair blynedd newydd gyda Pinewood Studios Wales Ltd	33

Atodiadau	39
Atodiad 1 – Ein dulliau archwilio	39
Atodiad 2 – Amserlen o'r digwyddiadau	40
Atodiad 3 – Dulliau cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel lleoliad cynyrchiadau ffilm a theledu sy'n creu effaith fawr	41
Atodiad 4 – Y saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud mewn cynyrchiadau teledu a ffilm	42
Atodiad 5 – Cynyrchiadau a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, 2014-2018	44

Adroddiad cryno

Adolygiad ynglŷn â beth yw hwn

- 1 Ym mis Chwefror 2014, prynodd Llywodraeth Cymru hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg¹ am £6.3 miliwn i'w ddatblygu'n stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood Shepperton Plc (Pinewood).
- 2 Yn fuan wedi hynny, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda dau is-gwmni newydd Pinewood. I Llywodraeth Cymru, roedd y cytundeb yn golygu:
 - prydlesu stiwdio Gwynllŵg i Pinewood;
 - sefydlu'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn (lle byddai Pinewood yn dod o hyd i gynyrchiadau addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru); a
 - noddi Pinewood i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r gyllideb fuddsoddi.
- 3 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Cydweithredol hwn, dros gyfnod o bum mlynedd, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynhyrchu tua £90 miliwn o wariant ar gynyrchiadau yng Nghymru, gan greu neu ddiogelu o leiaf 1,950 o flynyddoedd o waith cyfwerth ag amser llawn.
- 4 Er mwyn darparu buddiannau'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, creodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau annibynnol i graffu ar y cynigion buddsoddi a nodwyd ac a gyflwynwyd gan Pinewood.
- 5 Penderfynodd aelodau'r Panel² ym mis Awst 2016 fod y Cytundeb Cydweithredol yn annhebygol o fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran perfformiad y gyllideb fuddsoddi. Ym mis Ionawr 2017, cadarnhaodd Pinewood eu parodrwydd i ail-drafod amodau'r Cytundeb Cydweithredol.
- 6 Yn dilyn trafodaethau, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i 'Gytundeb Gwasanaethau Rheoli' newydd ar 1 Tachwedd 2017.
- 7 Cafwyd diddordeb gwleidyddol ac yn y cyfryngau ynglŷn â'r cytundeb newydd a'r digwyddiadau yn arwain at hynny. Mynegodd Aelod Cynulliad bryderon gyda'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â thelerau'r cytundeb cydweithredol gwreiddiol a'r cytundeb gwasanaethau rheoli newydd.
- 8 Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrthi yn cynnal ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru.

1 Wedi'i leoli rhwng Casnewydd a Chaerdydd.

2 Ar y cyd ag aelodau Panel Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru.

- 9 Mae'r adroddiad hwn, sy'n nodi'r ffeithiau'n unig, yn amlinellu'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â chytundebau Llywodraeth Cymru â Pinewood. Nid ydym wedi archwilio'r gwerth am arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael o'r Cytundeb Cydweithredol nac effeithiolrwydd ei waith wrth hyrwyddo'r sector hwn o fewn yr economi Gymreig.
- 10 Mae **Atodiad 1** yn nodi ein dulliau archwilio, ac **Atodiad 2** yn nodi amserlen y digwyddiadau allweddol.
- 11 Mae **Atodiad 3** yn nodi dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel lleoliad i gynhyrchu cynyrchiadau ffilm a theledu sy'n creu effaith fawr, tra bod **Atodiadau 4 a 5** yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Canfyddiadau allweddol

- 12 Ym mis Chwefror 2014, prynodd Llywodraeth Cymru hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg am £6.3 miliwn i'w ddatblygu'n stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood. Adnewyddwyd yr adeilad ar gost o £3.1 miliwn i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y gwaith o atgyweirio'r to gwerth ychydig o dan £1 miliwn – gwaith na chafodd ei ragweld.
- 13 Yn ogystal, prynodd Llywodraeth Cymru Ffermdy Rhestredig Gradd II fel rhan o'r broses. Roedd angen gwneud gwelliannau gwerth tua £360,000 i fodloni'r safonau angenrheidiol. Er i'r ffermdy gael ei weld fel ased gwerthfawr posib, nid yw wedi'i atgyweirio fel y bwriadwyd ac mae'n parhau'n ddiffaith ar dir gerllaw prif safle Gwynllŵg.
- 14 Yn fuan ar ôl prynu safle Gwynllŵg, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda Pinewood Shepperton Plc i hyrwyddo cynrychiadau teledu a ffilm yng Nghymru. I Lywodraeth Cymru, roedd y cytundeb yn golygu:
 - prydlesu hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg i Pinewood Studio (Wales) Ltd am gyfnod o 15 mlynedd;
 - gan ailddatblygu'r safle a'i frandio fel 'Pinewood Studio Wales';
 - creu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn, i fod ar gael am gyfnod o bum mlynedd i fuddsoddi mewn datblygu, cynhyrchu a dosbarthu cynrychiadau ffilm a theledu. Sefydlwyd a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi a llunio syniadau cynhyrchu i ddefnyddio'r gyllideb; a
 - 'nodd' Pinewood Studios (Wales) Ltd i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio ffilm a theledu newydd a'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau ar gost blyneddol o £525,600 dros gyfnod o bum mlynedd.
- 15 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau annibynnol newydd i benderfynu pa gynrychiadau a nodwyd gan Pinewood y dylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi a pha fath(au) o becyn cyllido.
- 16 Erbyn Awst 2016, roedd aelodau'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a Phanel Sector y Diwydiannau Creadigol yn anfodlon â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, a oedd yn llai na'r disgwyl.

- 17 Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod £13.8 miliwn o'r gyllideb £30 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws 14 o brosiectau. Hyd yma, mae £4.3 miliwn wedi'i adennill o'r prosiectau a gefnogwyd. Mae un prosiect wedi adennill mwy na'i fuddsoddiad gwreiddiol; mae pedwar prosiect wedi adennill rhywfaint o'u buddsoddiad gwreiddiol a naw prosiect heb adennill unrhyw beth o'u buddsoddiad gwreiddiol. Mae'r prosiectau hyn mewn gwahanol gamau datblygu; nid yw rhai wedi elwa hyd yma o'u rhyddhau mewn sinemâu rhyngwladol neu ar y teledu, a bydd arian yn parhau i gael ei adennill drwy werthiant ychwanegol.
- 18 Ym mis Awst 2016, cynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith am eu pryderon ynglŷn â pherfformiad y gyllideb. Y pryderon oedd:
- mwy o fuddsoddiadau o risg uwch yn cael eu cyflwyno gan Pinewood oherwydd gallai cynyrchiadau gael cyllid o risg llai o ffynonellau eraill;
 - roedd model gweithredu Pinewood yn golygu ei fod yn gyndyn i fuddsoddi ei arian ei hun yn y prosiectau o risg uwch ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru; ac
 - efallai bod gwrthdaro o ran cysylltiad Pinewood â'r gyllideb gan fod diddordeb ganddynt mewn darparu ei wasanaethau ei hun i'r diwydiant o Lundain (nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod gan Pinewood fantais gystadleuol annheg wrth ddiogelu gwaith ôl-gynhyrchu yng Nghymru. Felly, roeddent o'r farn y byddai hyn yn gallu lleihau'r manteision economaidd i Gymru.
- 19 Erbyn mis Ionawr 2017, roedd perchnogion newydd wedi prynu Pinewood, ac hysbyswyd Llywodraeth Cymru o'u parodrwydd i gyflwyno trefniant newydd i weithredu'r stiwdio. Erbyn hynny:
- roedd Pinewood wedi mabwysiadu model busnes rhyngwladol newydd, gan ganolbwyntio ar ddarparu cyfleusterau stiwdio yn hytrach na buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynyrchiadau teledu a ffilm;
 - nodwyd bod uchder y to yn Pinewood Studio Wales (25 troedfedd) yn ffactor cyfyngol, gan fod y safle wedi methu croesawu cynyrchiadau ffilm o gyllideb uwch sy'n gofyn am olygfeydd panoramig o'r awyr; a
 - nid oedd y galw a ragwelwyd ar gyfer y stiwdio wedi dwyn ffrwyth, gan arwain at ei rhedeg ar golled i Pinewood ar ôl i'r cyfnod di-rent cychwynnol o ddwy flynedd ddirwyn i ben.

- 20 Dywedodd swyddogion Pinewood wrthym fod agoriad stiwdio cynyrchiadau ffilm a theledu newydd gan Bad Wolf Studios (Wales) Ltd ym Mharc Trident, Caerdydd, ym mis Mai 2017 wedi cael effaith andwyol ar ddeiliadaeth Pinewood Studio Wales. O ganlyniad, roedd nifer yr ymholiadau roeddent yn eu derbyn wedi gostwng, er bod y galw am Pinewood Studios yn dal yn gryf yn y DU.
- 21 Mae Bad Wolf wedi elwa o becyn cyllid gwerth £9 miliwn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i strwythuro fel benthyciad o £4.5 miliwn i'w ad-dalu yn y lle cyntaf ac y mae modd ei droi'n gyllid grant nad oes rhaid ei ad-dalu os bydd cerrig milltir penodol yn cael eu cyflawni mewn perthynas â gwariant ar gynhyrchu yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau'r £4.5 miliwn arall o'r cyllid hwn fel taliadau grant os bydd targedau gwario ychwanegol yn cael eu cyflawni. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn prydlesu cyfleuster Wolf Studios Wales i Bad Wolf ym Mae Caerdydd, ar delerau masnachol.
- 22 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod y galw am gyfleusterau stiwdio yn amrywio wrth i gynyrchiadau fynd a dod, ond yn eu barn nhw, effeithiwyd ar y galw am safle Gwynllŵg yn sgil newid ffocws ar ôl i berchnogaeth Pinewood newid.
- 23 Nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu y cafwyd gostyngiad yn yr ymholiadau ar gyfer Pinewood ers agor Wolf Studios Wales. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Sgrî'n Cymru wedi cynnal ymweliadau stiwdio gyda chynyrchiadau mawr ar ddeg achlysur. Dim ond dwywaith na chafodd Pinewood ei gynnwys a hynny o ganlyniad i ddewis y cynhyrchydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Sgrî'n Cymru³ yn hyrwyddo holl gyfleusterau Cymru yn gyfartal, fodd bynnag, mae Pinewood yn dadlau yn erbyn yr honiad hwnnw. Hyd yma, mae Wolf Studios Wales wedi bod yn gartref i gynyrchiadau Bad Wolf yn unig, lle mae Pinewood wedi'i ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau'r BBC, Channel 4 a chwmnïau ffilm annibynnol.
- 24 Ym mis Hydref 2017, derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyngor ei swyddogion i ddod â'r Brydles a'r Cytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben, ac i ohirio'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

3 Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion ynghylch Sgrî'n Cymru.

- 25 Ar 1 Tachwedd 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'gytundeb gwasanaethau rheoli' tair blynedd newydd gyda Pinewood Studios (Wales) Ltd. Mae'r cytundeb newydd hwn yn cynnwys dwy ran sy'n ategu ei gilydd; gwerthiant a marchnata'r stiwdio a gwasanaethau gweithredu a rheoli'r stiwdio. Mae'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau bellach yn cael ei rheoli gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- 26 Amcangyfrifir y bydd cost net flynyddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cytundeb gwasanaethau rheoli yn £392,000 (yn ogystal â ffi rheoli ychwanegol i Pinewood bob blwyddyn, sydd wedi cael ei hepgor o'r adroddiad hwn ar sail sensitifrwydd masnachol⁴).
- 27 Mae'r amcangyfrif hwn o'r gost net yn cymryd bod y rhagolygon refeniw blynyddol o £714,000, a gafodd ei gynnwys yn y cyflwyniad i'r Ysgrifennydd Cabinet, yn realistig. Fodd bynnag, darparwyd y rhagolygon refeniw blynyddol gan Pinewood ar sail y llif o brosiectau ym mis Mawrth 2017 cyn agor Bad Wolf Studios. Serch hynny, ar yr adeg honno roedd Pinewood wedi ychwanegu'r y cafeat y gallai'r refeniw hwn fod yn is oherwydd mwy o gystadleuaeth wrth Wolf Studios. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod dibynadwyedd y rhagolygon refeniw wedi'u profi a'u harchwilio gan swyddogion yn ogystal ag ymgynghorwyr eiddo annibynnol.
- 28 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r rhagolygon ariannol hyn yn cynrychioli gwerth da am arian. Serch hynny, yn eu barn nhw, roedd yn fwy manteisiol yn ariannol i ymrwymo i gytundeb tair blynedd gyda Pinewood⁵ gyda'r bwriad o gynhyrchu refeniw masnachol o'i gymharu â'r costau y byddai Llywodraeth Cymru wedi'u hysgwyddo o adael y safle'n wag wrth iddynt chwilio am denant newydd.

4 Gweler Paragraff 3.13, Diagram 10 a Throednodyn 29 i gael eglurhad pellach am y rhesymau dros hepgor hyn.

5 Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys amod a oedd yn caniatáu i'r naill barti a'r llall ddod â'r cytundeb i ben drwy roi chwe mis o rybudd, ar ôl y 12 mis cyntaf.

Rhan 1 – Sefydlu Cytundeb Cydweithredol Llywodraeth Cymru â Pinewood ym mis Chwefror 2014

Ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cydweithredol â Pinewood i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru


- 1.1 Yn ystod 2013-14, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru drafodaethau gyda swyddogion Pinewood ynglŷn â sefydlu cyfleuster stiwdio o safon fyd-eang yng Nghymru. Byddai hyn yn rhan o rwydwaith byd-eang Pinewood o stiwdios ffilm. I gyd-fynd â'r stiwdio, datblygodd Llywodraeth Cymru gynlluniau hefyd i greu cyllideb fuddsoddi £30 miliwn i gefnogi cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru. Byddai'n cael ei weithredu gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Elfen allweddol o'r cynnig, yn wahanol i'r Cytundeb Cydweithredol ei hun, oedd bod y Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg wedi dod i feddiant Llywodraeth Cymru. Roedd y Ganolfan i'w hail-ddatblygu gan Llywodraeth Cymru a Pinewood fel stiwdio. Byddai'r stiwdio yn cael ei rhedeg gan Pinewood Studio (Wales) Ltd, is-gwmni newydd arall Pinewood.
- 1.3 Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl incwm rhent o £1.6 miliwn wrth Pinewood Studio (Wales) Ltd ar gyfer y stiwdio yn ystod pum mlynedd gyntaf y cytundeb.
- 1.4 Roedd Pinewood eisoes wedi gweithio gyda Llywodraeth Ynys Manaw i gyflwyno Cronfa Ddatblygu Cyfryngau Ynys Manaw yn 2012; dyma gronfa gwerth £25 miliwn i'w defnyddio ar gynyrchiadau ffilm a theledu. Adeiladodd y gronfa hon ar amrywiaeth o fentrau o fewn y sector creadigol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Ynys Manaw ers 1995. Daeth dadansoddiad economaidd annibynnol o gefnogaeth Ynys Manaw i gynyrchiadau ffilm a theledu i'r casgliad ei bod wedi cynhyrchu gwariant lleol uniongyrchol o £100 miliwn a 2,140 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ers 1995.
- 1.5 Roedd Llywodraeth yr Alban⁶ a Chynulliad Gogledd Iwerddon⁷ hefyd yn ehangu eu cyfleusterau stiwdios eu hunain i ymdopi â'r galw cynyddol o'r diwydiant ffilm a theledu.

⁶ Gwefan Llywodraeth yr Alban, [Creative Industries: Film and TV production in Scotland](#)

⁷ Buddsoddodd Gogledd Iwerddon mewn llwyfannau sain newydd ym mis Hydref 2012 i ddarparu gofod stiwdio ychwanegol yn Titanic Studios, Belfast.

1.6 Ar 17 Chwefror 2014, daeth y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood i ben ac ymrwymodd Gweinidogion i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd, fel y gwelir yn **Diagram 1**.

Diagram 1: elfennau allweddol y Cytundeb Cydweithredol



Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth Llywodraeth Cymru.

- 1.7 Yn ôl y rhagolygon, gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld amcangyfrif o £90 miliwn ar wariant cynhyrchu ffilm a theledu yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf drwy'r Cytundeb Cydweithredol hwn. Byddai'r gwariant hwn yn creu neu'n diogelu o leiaf 1,950 o flynyddoedd o waith cyfwerth ag amser llawn. Defnyddiodd y rhagolygon hyn ddadansoddiad economaidd annibynnol a wnaed ar gronfa Ynys Manaw. Roedd enw brand Pinewood, oedd yn adnabyddus yn rhyngwladol, yn cael ei weld fel elfen ganolog o lwyddiant y cynnig.
- 1.8 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal prosesau diwydrwydd dyladwy ar y rhagolygon ariannol a ddarparwyd ar gyfer y gweithgareddau i'w cynnal gan y ddau is-gwmni Pinewood; Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd a Pinewood Studio (Wales) Ltd. Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad fod y risgiau ariannol o ymrwymo i'r fargen yn isel, yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r ddau fusnes yn cael eu cefnogi'n ariannol gan Pinewood Shepperton Plc.
- 1.9 Yn ogystal, comisiynodd swyddogion arbenigwr o fewn y diwydiant cyfryngau i ddarparu cyngor ar gyfrifyddiaeth ac i gynnal adolygiad o gynllun busnes Pinewood. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad fod y gwendidau posibl a nodwyd, yn unigol ac o'u rhoi at ei gilydd, yn ddibwys o'u cymharu â manteision capasiti cynyddol stiwdios yn y DU, sefydlu stiwdio ffilm ranbarthol, creu swyddi a manteision economaidd i Gymru. Serch hynny, cyfeiriodd yr adolygiad at heriau posibl denu cynyrchiadau ffilm a theledu i safle Gwynllŵg, o gofio bod pedair miliwn troedfedd sgwâr o ofod stiwdio posib o fewn yr M25.
- 1.10 Yn ogystal, dadansoddodd tîm sector Diwyddiannau Creadigol Llywodraeth Cymru yr achos busnes ar gyfer y cynnig, a daeth i'r casgliad ei fod yn fuddsoddiad cadarn. Seiliwyd y casgliad hwn ar ddadansoddiad manwl o'r cynllun busnes a ddarparwyd gan Pinewood ac ar ystyriaeth o alw'r diwydiant am stiwdio ffilm a theledu a mynediad i gyllideb fuddsoddi yng Nghymru.

Prynodd Llywodraeth Cymru hen safle ynni yng Ngwynllŵg i'w ddatblygu fel stiwdio ffilm a theledu

- 1.11 Fel rhagarweiniad i'r cytundeb ac er mwyn gallu sefydlu stiwdio ffilm a theledu, roedd angen i Lywodraeth Cymru brynu safle addas.
- 1.12 Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwilio am safleoedd addas yn seiliedig ar ofynion penodol Pinewood. Dewisiodd Pinewood ddau safle ar gyfer y rhestr fer, wedyn dod i'r casgliad mai adeilad yr hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg oedd yr opsiwn gorau o'r ddau ar y rhestr fer. Roedd yr adeilad yn cael ei farchnata'n sylweddol gan asiantau am bris o amgylch £8.34 miliwn (gan gynnwys TAW). Roedd yn hysbys bod diddordeb yn yr adeilad – i'w brynu a'i rentu. Ystyriodd Llywodraeth Cymru brynu'r safle i gynnwys y llog rhydd-ddaliad er mwyn cynnig gwell gwerth am arian na phrydlesu'r safle⁸.
- 1.13 Yn dilyn prisiad annibynnol, £6.54 miliwn (gan gynnwys TAW) oedd gwerth yr adeilad ar y farchnad. Felly, ystyriodd swyddogion fod y pris prynu o £6.3 miliwn a drafodwyd gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2013, yn fargen dda. Dywedodd y perchnogion wrth Lywodraeth Cymru eu bod yn barod i orffen y gwerthiant pe gellid cyfnewid contractau o fewn mis.
- 1.14 Edrychwyd ac adroddwyd am gyflwr yr adeilad⁹ ar y pryd gan y priswyr annibynnol, fel a ganlyn:
 - 'roedd yn ymddangos bod yr adeilad mewn cyflwr rhesymol yn gyffredinol yn gymesur â'i oedran a'i ddefnydd. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion arwyddocaol neu eitemau atgyweirio brys fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos neu y tu allan i sgôp y broses gynnal a chadw flynyddol arferol'.
- 1.15 Ym mis Rhagfyr 2013, cymeradwyodd y Gweinidog dros Addysg, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gynigion a gyflwynwyd gan swyddogion i brynu'r safle gan Lywodraeth Cymru am £6.3miliwn¹⁰.

8 Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod llog prydles yn cael ei ystyried yn 'wastraff asedau', ac y byddai eu gwerth yn lleihau dros amser.

9 Ar gyfer cyflawnrwydd, gellir nodi bod tyrbîn gwynt mawr hefyd yn bresennol o fewn adeilad Gwynllŵg a oedd, ar adeg ei brynu gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar brydles gyfredol i gyflenwr ynni.

10 Ynghyd â'r ffioedd proffesiynol cysylltiedig o hyd at £30,000.

- 1.16 Roedd y cyflwyniad i'r Gweinidog yn datgan y byddai Llywodraeth Cymru, yn unol â Phenawdau'r Telerau, yn buddsoddi £1.8 miliwn (gan gynnwys TAW) yn y gwaith o wella'r adeilad, gyda £800,000 o fuddsoddiad cyfatebol gan Pinewood¹¹. Byddai'r gwaith ffisegol y cytunwyd arno yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, neu fel arall gan Pinewood dan oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith i safon foddhaol, byddai'r brydles alwedigaethol yn cael ei rhoi i Pinewood.
- 1.17 Cynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru y Gweinidog, er nad oedd y Cytundeb Cydweithredol â Pinewood wedi'i lofnodi eto, y dylai'r broses o brynu'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg fynd yn ei blaen beth bynnag.
- 1.18 Cyflwynodd hynny risg, pe na bai prosiect Pinewood yn symud yn ei flaen, nid oedd gan Lywodraeth Cymru y sgiliau na'r arbenigedd yn fewnol i ddatblygu a rheoli cyfleuster stiwdio rhyngwladol. Fodd bynnag, nododd swyddogion y gellid lliniaru'r risgiau hyn pe bai angen drwy amrywiaeth o gamau gweithredu. Roeddent yn cynnwys contractio'r broses o reoli'r cyfleuster drwy broses gaffael ar y farchnad agored.
- 1.19 Cwblhawyd y broses o brynu safle Gwynllŵg gan Lywodraeth Cymru ar 7 Chwefror 2014. Nid oedd union raddau'r gwaith atgyweirio a'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer yr adeilad wedi'u cytuno na'u cwblhau rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood ar y dyddiad prynu.
- 1.20 Yn fuan cyn i Pinewood symud i'r adeilad, gwelwyd bod dŵr yn gollwng, yn bennaf yng nghyffiniau'r cafnau dŵr glaw. Gallai'r atgyweiriadau angenrheidiol i'r to fod wedi eu cyfyngu i'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, er mwyn lleihau risgiau gweithredol a risg i enw da, dewisodd swyddogion Llywodraeth Cymru weithredu cynllun mwy sylweddol yn costio £979,000. Darparodd hyn orchudd ar gyfer y to cyfan gyda'r mantais o ymestyn oes y to¹². Ym marn swyddogion Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn helpu gyda phroses reoli barhaus yr adeilad a fyddai hefyd yn ychwanegu gwerth pe byddai'n ceisio cael gwared ar yr adeilad yn y dyfodol.

11 Gweler paragraffau 3.10 a 3.11

12 Darparwyd gwarant 20 mlynedd gan y gwneuthurwr.


Diagram 2: Yr Adeilad Rhestredig Gradd II gerllaw Pinewood Studio Wales



Ffynhonnell: Ymweliad safle Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2018

- 1.21 Fel rhan o'r broses o brynu'r safle, prynodd Llywodraeth Cymru hefyd ffermdy rhestredig Gradd II adfeiliedig ger y prif adeilad. Wrth brynu'r ffermdy, daeth Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth statudol i adnewyddu'r adeilad am gost amcangyfrifedig o £360,000 (gan gynnwys TAW). Rhagwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ôl ei adnewyddu, y gallai'r ffermdy fod yn ased gwerthfawr y gellid ei brydlesu neu ei werthu, naill ai gyda'r prif adeilad neu ar wahân.
- 1.22 Yn ystod y trafodaethau ar y brydles, trafododd swyddogion Llywodraeth Cymru a Pinewood a ddylid adnewyddu'r ffermdy a'i gynnwys gyda'r stiwdio at ddibenion eraill. Penderfynwyd yn y pen draw y byddai Pinewood yn prydlesu'r adeilad diwydiannol yn unig. Heb unrhyw ddefnydd penodol ar gyfer y ffermdy, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â buddsoddi yn y gwaith adnewyddu am y tro. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y gallai fod yn rhan o brosiect yn y dyfodol, neu i gael gwared arno ar wahân.

Diagram 3: Y costau a wynebwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt prynu ac adnewyddu'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg¹³



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

13 Mae'r holl ffigurau'n cynnwys TAW lle bo'n berthnasol. Etholodd Llywodraeth Cymru i drethu'r adeilad er mwyn adennill costau TAW.

14 Yn cynnwys £1,800,000 o welliannau arfaethedig. £979,000 ar gyfer atgyweirio'r to a £360,000 i adnewyddu gofod swyddfa.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru safle Gwynllŵg i Pinewood Studio (Wales) Ltd ar brydles, a chytunodd i gyfrannu'r rhan fwyaf o'r arian angenrheidiol i'w adnewyddu

- 1.23 Llofnododd Gweinidogion Llywodraeth Cymru y Cytundeb Cydweithredol â Pinewood Shepperton Plc ar 17 Chwefror 2014, ychydig ddyddiau ar ôl cwblhau'r broses o brynu safle Gwynllŵg. Fe wnaeth y cytundeb hwyluso'r broses o brydlesu'r safle i is-gwmni newydd Pinewood; Pinewood Studio (Wales) Ltd.
- 1.24 Ni lofnodwyd y brydles rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Pinewood Studio (Wales) Ltd tan 20 Hydref 2016, er bod Cytundeb Prydlesu wedi'i lofnodi ar 16 Gorffennaf 2014. Roedd y safle ym meddiant Pinewood a dechreuodd y gwaith cynhyrchu o ddechrau 2015.
- 1.25 Roedd y telerau a gytunwyd ar gyfer prydles atgyweirio lawn 15 mlynedd, ar delerau gosod safonol y farchnad o fis Ionawr 2015, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn ddi-rent. O dan delerau'r brydles, roedd gan Pinewood Studio (Wales) Ltd opsiwn i dorri'r brydles yn ystod y pumed a'r wythfed blwyddyn, ar ôl ad-dalu cymhellion tenant priodol. Cytunwyd i'r rhent cychwynnol o £546,876 y flwyddyn i ddechrau o 12 Ionawr 2017.
- 1.26 Dros dymor pum mlynedd cyntaf y cytundeb prydles (i Ionawr 2020), roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynhyrchu incwm rhent o £1.6 miliwn¹⁵ wrth Pinewood ar gyfer y stiwdio.

Noddwyd Pinewood Studio (Wales) Ltd gan Lywodraeth Cymru i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio ffilm a theledu newydd ar gost flynyddol o £525,600 (gan gynnwys TAW) dros gyfnod o bum mlynedd


- 1.27 Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredol a lofnodwyd ar 17 Chwefror 2014, ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i 'gytundeb nawdd' â Pinewood Studio (Wales) Ltd ar gost flynyddol o £438,000 am y pum mlynedd o 1 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2019.
- 1.28 Yn fuan ar ôl i'r Cytundeb Cydweithredol gael ei lofnodi, cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod TAW wedi'i hepgor o'r cytundeb nawdd gwreiddiol. Felly, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Gweinidog i gynyddu'r nawdd blynyddol o £87,600 i £525,600. Felly byddai'r cyfanswm sy'n daladwy i Pinewood yn ystod y cytundeb nawdd pum mlynedd yn £2.63 miliwn.

¹⁵ Incwm rhent tair blynedd, yn dilyn cyfnod di-rent cychwynnol o ddwy flynedd.

- 1.29 Nododd y cytundeb nawdd y byddai'r stiwdio yn cael ei henwi'n 'Pinewood Studio Wales' ac y byddai'n cael ei hyrwyddo a'i marchnata'n rhyngwladol fel stiwdio ffilm a theledu, ochr yn ochr â chyfleusterau rhyngwladol eraill Grŵp Pinewood¹⁶. Disgwylwyd i hyn adeiladu ar enw da Cymru fel lleoliad gwych i ffilmio a'i gysylltu â gwasanaethau Comisiwn Sgrîn Cymru.
- 1.30 Y stiwdio yng Ngwynllŵg fyddai'r stiwdio Pinewood gyntaf yn y DU y tu allan i dde-ddwyrain Lloegr. Mae **Diagram 4** yn dangos sut mae'r stiwdio yn cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd drwy wefan benodol a sefydlwyd gan Pinewood.

¹⁶ Ar draws timau gwerthiant Pinewood yn Llundain, Efrog Newydd a Los Angeles ac mewn gwyliau ffilm.

Diagram 4: Hafan Pinewood Studio Wales



Ffynhonnell: Gwefan Pinewood Studio Wales, mis Mai 2018.

- 1.31 O dan y cytundeb hwn, cytunodd Pinewood i beidio â chynnig cyfleusterau stiwdio wedi'u brandio (heblaw unrhyw rai gyda'u partneriaid neu gysylltiadau presennol) yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Glannau Merswy neu Avon a Gwlad yr Haf, heb gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd ar gytundeb cyfyngu pum mlynedd i beidio ag adeiladu stiwdio arall yng Nghymru heb gymeradwyaeth Pinewood. Rhoddodd y cytundeb hwn rai cyfyngiadau ar yr hyn y byddai Gweinidogion yn gallu ei wneud yn y dyfodol o ran stiwdios eraill.
- 1.32 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ei fod yn hollbwysig y gallent gyfiawnhau'r ffi blynyddol o gofio ei fod yn sylweddol uwch na gwerth y trefniadau nawdd eraill yr oeddent wedi ymrwymo iddynt. Roeddent hefyd yn ymwybodol na ddylai'r ffi fod yn gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon i Pinewood. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y ffi yn werth da am arian ac ar delerau'r farchnad. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r trefniadau hyn yn lliniaru'r risg o unrhyw her gyfreithiol.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £30 miliwn i fuddsoddi mewn cynyrchiadau ffilm a theledu, a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi prosiectau addas i fuddsoddi ynddynt

- 1.33 Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i greu cyllideb ffilm a theledu gwerth £30 miliwn. Byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau hon yn cael ei rheoli gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru. Byddai'n gweithredu fel cynllun peilot, am bum mlynedd i ddechrau, ac yn amodol ar adolygiad interim ar ôl 18 mis.
- 1.34 Byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei defnyddio i ariannu'r broses o ddatblygu, cynhyrchu a dosbarthu prosiectau adloniant a ffilmwyd neu unrhyw brosiectau cyfryngau eraill a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl elwa o'i gydweithrediad â Pinewood oherwydd ei arbenigedd, ei wybodaeth a'i rwydweithiau o fewn y sector, yn ogystal â'i brofiad o gydweithio â threfniant tebyg yn Ynys Manaw.
- 1.35 Bwriad Llywodraeth Cymru oedd adennill ei fuddsoddiadau drwy ad-dalu benthyciadau ac ad-daliadau ar ecwiti, ac ail-fuddsoddi'r ffrydiau incwm hynny mewn prosiectau cynhyrchu pellach. Roedd gan hyn y potensial i greu cronfa hunan-adnewyddu neu 'fytholwyrdd'. Rhagwelodd swyddogion y byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn buddsoddi rhwng £12 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn¹⁷.
- 1.36 Ni dderbyniodd Film Advisors (Wales) Ltd nawdd gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r rôl reoli hon. Fodd bynnag, o dan y Cytundeb Cydweithredol, byddai'n gallu cynhyrchu refeniw o'r busnesau sy'n gwneud cynyrchiadau a ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys:
- Gallai Pinewood drafod ffioedd cynhyrchu/trefnu gyda'r cwmni cynhyrchu, y dylid eu cynnwys yn y gyllideb gynhyrchu a'u talu gan y cwmni cynhyrchu.
 - Gallai Pinewood dderbyn ffioedd dosbarthu a/neu gostau pan fydd hawliau dosbarthu'r DU yn cael eu prynu a'u cynnwys yn y broses gymeradwyo. Byddai'r ffioedd a'r costau hyn yn cael eu derbyn gan Pinewood o'r derbyniadau a gasglwyd o'r hawliau dosbarthu, heb ofyn am gymorth Llywodraeth Cymru.
 - Gallai Pinewood hefyd, yn ôl ei ddisgresiwn, fuddsoddi ei gronfeydd ei hun yn y cynyrchiadau hyn.

¹⁷ Byddai buddsoddiadau'n cael eu gwneud rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2019. Byddai angen cwblhau pob gweithgaredd cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu erbyn 31 Mawrth 2020.

- 1.37 Lanswyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a Pinewood Studio Wales yn swyddogol mewn digwyddiad yng Nghaerdydd ar 17 Chwefror 2014.
- 1.38 Mae **Diagram 5**, a gymerwyd o wefan Pinewood Studio Wales ym mis Gorffennaf 2017, yn crynhoi hyrwyddiad gan Pinewood o ran Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru.

Diagram 5: hyrwyddiad gan Pinewood o ran Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru

Ystyriaethau allweddol Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru:

- Rhaid i gynyrchiadau saethu 50% o'r lluniau yng Nghymru;
- Gall Pinewood Pictures a Sgrîn Cymru ddarparu gwybodaeth am saethu yng Nghymru. Am drosolwg, ewch i www.screenwales.com
- At hynny, mae cyfleuster stiwdio Pinewood yng Nghaerdydd ar gael ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu:
 - gan gynnwys 2 lwyfan 20,000 troedfedd sgwâr yr un gyda sain arbennig a 30,000 troedfedd sgwâr ychwanegol o ran llawr saethu;
 - 70,000 troedfedd sgwâr o ofod cynhyrchu defnydd cymysg, gan gynnwys llety i gynyrchiadau a swyddfeydd a chyfleusterau modern a hyblyg;
 - Yn agos i ganol Caerdydd ac amrywiaeth o **leoliadau godidog**;
 - Am fwy o wybodaeth, ewch i www.pinewoodstudiowales.com

Mae rhai o'r cyn brosiectau yn cynnwys: Take Down, Don't Knock Twice a Their Finest Hour and a Half.

Ffynhonnell: Gwefan Pinewood Studio Wales, mis Gorffennaf 2017.

- 1.39 Ceir saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud gyda chynyrchiadau drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Gall prosiectau ddefnyddio un math o gyllid yn unig, neu gyfuniad ohonynt. Weithiau, gall Llywodraeth Cymru ddewis rhoi cyllid grant ochr yn ochr â'r cyllid buddsoddi masnachol. Fodd bynnag, mae gan bob math o fuddsoddiad amserlenni a risgiau gwahanol, fel y dangosir yn **Diagram 6**. Mae **Atodiad 4** yn cynnwys mwy o fanylion am bob math o fuddsoddiad.

Diagram 6: y saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud gyda chynyrchiadau drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

MATH O FUDDSODDIAD	DISGRIFIAD	AMSERLEN
Credyd Treth	Blaendaliadau arian parod yn erbyn y credydau treth y mae'r cynhyrchiad yn gymwys iddynt	Gan amlaf o fewn 12 mis i'r gwaith gael ei gwblhau
Cyn-Werthu	Blaendaliadau arian parod yn erbyn y gwerthiant a wnaed eisoes i ddosbarthwyr	O fewn chwe mis i'r toriad terfynol gael ei gymeradwyo
Bwlch	Ymrwymiad yn erbyn tiriogaethau gwerthiant na werthwyd yn seiliedig ar amcangyfrifon gwerthu	Pan fydd gwerthiant yn dechrau, yn dilyn dangosiadau gwerthu ar ôl i'r toriad terfynol gael ei gymeradwyo
Mesanîn	Cyllid yn seiliedig ar y ffilm yn derbyn gwerthiant uwch na'r amcangyfrif	Yn agos at neu'n dilyn rhyddhau'r cynhyrchiad
Ecwiti	Ad-dalu buddsoddiadau terfynol, sy'n gofyn i'r cynhyrchiad werthu'n dda i ddosbarthwyr	Ar ôl i'r holl gyllid arall gael ei ad-dalu'n llawn
Cyllid Busnes Ad-daladwy	Cymorth ariannol dewisol ar sail ad-daladwy neu na ellir ei ad-dalu	Cynghori Pinewood ynglŷn â pha bryd y gellir adennill cyllid os yw'n ad-daladwy
Cyllid Datblygu	Cyllid ar gyfer cam datblygu prosiect, a ad-delir os bydd y prosiect yn symud i'r cam cynhyrchu	Ad-dalu ar ddiwrnod cyntaf y prif saethu

● UCHEL ● CANOLIG ● ISEL

Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth Llywodraeth Cymru.


Rhan 2 – Gweithredu'r Cytundeb Cydweithredol tan fis Hydref 2017

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau i benderfynu pa brosiectau a gyflwynwyd gan Pinewood ddylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi

- 2.1 Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai ei Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gan amlaf yn buddsoddi'n unswydd mewn prosiectau sy'n costio dros £1 miliwn i'w cynhyrchu. Cymeradwyodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sefydlu Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau dan arweiniad y sector preifat a fyddai'n darparu'r arbenigedd angenrheidiol i graffu a chymeradwyo'r prosiectau hyn. Byddai'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei sefydlu fel grŵp gorchwyl a gorffen am gyfnod cychwynnol o 18 mis, a'i gadeirio gan arbenigwr o fewn y diwydiant¹⁸.
- 2.2 Sefydlwyd y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau ym mis Ebrill 2014 fel panel o arbenigwyr o fewn y sector a benodwyd drwy broses gyhoeddus.
- 2.3 Byddai swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiadau diwydrwydd dyladwy annibynnol o'r holl brosiectau arfaethedig, ac yn gyfrifol am gynnal adolygiadau cydymffurfio i sicrhau bod telerau ac amodau ariannol yn cael eu bodloni. Yn benodol:
 - o leiaf 50% o'r cynhyrchiad i'w saethu yng Nghymru;
 - 35 i 40% o gyllideb 'dan y llinell' y cynhyrchiad i'w wario ar wariant cynyrchiadau Cymreig; a
 - byddai Llywodraeth Cymru yn rhannu'r manteision masnachol o gynyrchiadau ffilm a theledu.
- 2.4 Mae **Diagram 7** yn crynhoi sut roedd y prosiectau yn cael eu gwerthuso am gyllid o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

¹⁸ Gyda threfniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i reoli unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.

Diagram 7: sut roedd y prosiectau yn cael eu gwerthuso am gyllid o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.



Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gedwir gan Llywodraeth Cymru.


Nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau'r panel

- 2.5 Erbyn tymor yr haf 2016, roedd aelodau'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a Phanel Sector y Diwydiannau Creadigol yn anfodlon ynglŷn â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Yn unol â hynny, cynghorodd Cadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol swyddogion Llywodraeth Cymru y dylid agor y gyllideb a'i gwneud yn anghyfngedig i Pinewood.
- 2.6 Ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ym mis Awst 2016, yn nodi eu pryderon canlynol ynglŷn â pherfformiad y gyllideb:
- mwy o fuddsoddiadau risg uwch yn cael eu cyflwyno gan Pinewood oherwydd gallai cynyrchiadau gael cyllid risg llai o ffynonellau eraill heb y gofyniad eu bod yn cael eu ffilmio yng Nghymru;
 - roedd model gweithredu Pinewood yn golygu ei fod yn gyndyn i fuddsoddi ei arian ei hun yn y prosiectau o risg uwch ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru; ac
 - efallai bod gwrthdaro o ran cysylltiad Pinewood â'r gyllideb gan fod diddordeb ganddynt mewn darparu ei wasanaethau ei hun i'r diwydiant o Lundain (nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod gan Pinewood fantais gystadleuol annheg wrth ddiogelu gwaith ôl-gynhyrchu yng Nghymru. Felly, roeddent o'r farn y byddai hyn yn gallu lleihau'r manteision economaidd i Gymru.
- 2.7 Ar 2 Tachwedd 2016, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at Pinewood i nodi'r materion ynglŷn â Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'r Cytundeb Cydweithredol. Roedd dau fater o bryder arbennig iddynt:
- **Cydymffurfiaeth** – roedd yn ymddangos bod diffyg tryloywder ynglŷn â graddau rôl ehangach Grŵp Pinewood mewn cynyrchiadau. Gwaethygodd y diffyg tryloywder ymddangosiadol yma'r pryderon ynglŷn â'r fantais ariannol y gallai Pinewood ei chael dros gwmnïau eraill drwy ei fynediad ecsgliwsif i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.¹⁹
 - **Perfformiad y Contract** – roedd y cynllun busnes gwreiddiol wedi amcangyfrif cyfanswm gwariant o £90 miliwn yng Nghymru, a oedd yn cynrychioli cymhareb trosoledd o 1:3 o ran cyllid cyhoeddus ochr yn ochr â chyllid preifat. Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, ar y pryd y gymhareb go iawn oedd 1:1, gan leihau'n sylweddol potensial y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau i ariannu ei hun.

¹⁹ Ni ragwelwyd y risg y gallai'r canfyddiad hwn fodoli adeg briffio'r Gweinidog yn 2014 lle argymhellwyd cymeradwyo'r Cytundeb Cydweithredol, neu fe gafodd ei hystyried yn ddibwys gan swyddogion pan gafodd y cyflwyniad ei roi i'r Gweinidog a argymhellodd fod y Cytundeb Cydweithredol yn cael ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2014, oherwydd nid yw'r papur cyflwyno yn dweud dim am y pwynt hwn.

- 2.8 Fe wnaethom holi swyddogion Pinewood ynghylch y pryderon hyn. Dywedodd Pinewood wrthym nad oedd yn gweld pam roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu am amharodrwydd ymddangosiadol Pinewood i fuddsoddi mewn prosiectau ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, a nododd ei fod wedi gwneud hynny ar gyfer naw prosiect. Nododd Pinewood nad oedd wedi adennill urnhyw fuddsoddiad mewn dau o'r prosiectau hyn eto. Drwy fuddsoddi mewn prosiectau fel 'Show Dogs', roedd Pinewood wedi galluogi'r prosiectau hyn i gwblhau'r agweddau ariannol wrth ffilmio yng Nghymru. O ran 'The Collection', mae Pinewood yn credu na fyddai'r arian a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn unig wedi bod yn ddigon i adleoli'r ffilmio y tu allan i Swydd Efrog. Mae Pinewood yn credu bod ei fuddsoddiad ef ei hun yn y prosiect hwnnw wedi sicrhau digon o arian i symud y cynhyrchiad i Gymru.
- 2.9 Mae swyddogion Pinewood hefyd wedi ein sicrhau ni ei fod wedi mynd i'r afael â phryder Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfiaeth drwy ei sicrhau bod croeso i'r cynyrchiadau ddewis derbyn cynnig ar ôl buddsoddi Pinewood i ddarparu gwasanaethau cynhyrchu, neu wneud eu trefniadau eu hunain i ddefnyddio cwmni arall yn lle. Fel enghreifftiau o hyn, cyfeiriodd Pinewood at gynhyrchwyr 'Journey's End', a oedd wedi dewis defnyddio tŷ ôl-gynhyrchu ar wahân i Pinewood, a doedd hwnnw ddim yng Nghymru. Yn yr un modd, roedd cynhyrchwyr 'The Collection' wedi dewis defnyddio stiwdio arall ar wahân i Pinewood ar gyfer ffilmio ar y llwyfan ac y tu ôl i'r llwyfan.
- 2.10 O ran pryder Llywodraeth Cymru ynghylch cyflawni contractau, mae swyddogion Pinewood wedi dweud wrthym fod eu cofnodion yn adlewyrchu cymhareb cyllid i wariant o tua 1:6 ar yr adenillion afraethedig.
- 2.11 Rydym wedi penderfynu bod Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd wedi cynhyrchu cyfanswm o £1,180,421 mewn ffioedd cynhyrchu / trefnu o gynyrchiadau sydd wedi'u hariannu gan Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Fel y nodir uchod, mae unrhyw incwm ychwanegol sydd wedi'i gynhyrchu gan y cwmni drwy ddarparu gwasanaethau ôl-gynhyrchu wedi deillio o gystadleuaeth agored, yn hytrach na darparu cymorth a ariannir gan y trethdalwyr. Felly, nid ydym wedi cynnwys y ffrwd refeniw hon yng nghwmpas ein gwaith archwilio. Rydym yn nodi bod cyfrifon cyhoeddedig Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd yn datgelu colled cadw o £320,000 ar weithgareddau'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2017.
- 2.12 Mae'r ffigurau diweddaraf a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod £13.8 miliwn o'r gyllideb o £30 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws 14 o brosiectau. Mae **Diagram 8** yn dadansoddi'r £13.8 miliwn dros y saith math o gyfrwng buddsoddi sydd ar gael i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Diagram 8: buddsoddiadau a wnaed o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau²⁰



Ffynhonnell: gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

²⁰ Mae'r diagram hwn yn cynnwys yr holl brosiectau a ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (hyd at Fai 2018), gan gynnwys y rheini a gafodd eu canfod gan Pinewood ac yna gan Llywodraeth Cymru. Gweler Atodiad 5 am ragor o fanylion.

2.13 Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod cyfanswm o £4.3 miliwn wedi'i adennill hyd yn hyn, o bump o'r 14 prosiect a gefnogwyd:

- mae un prosiect wedi adennill mwy na'i fuddsoddiad gwreiddiol;
- mae pedwar prosiect wedi adennill rhywfaint o'i fuddsoddiad gwreiddiol; a
- mae naw prosiect heb adennill unrhyw beth o'u buddsoddiad gwreiddiol eto.

Mae'r prosiectau hyn yn ystod camau datblygu gwahanol. Nid yw rhai o'r prosiectau wedi elwa hyd yma o'u rhyddhau mewn sinemâu rhyngwladol neu ar y teledu, a bydd arian yn parhau i gael ei adennill drwy werthiant ychwanegol.

2.14 Mae **Diagram 5** yn rhoi manylion pellach am y cynyrchiadau a gefnogwyd a'r hyn sydd wedi'i adennill.

Nid oedd Pinewood Studios Wales Ltd yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes hyfyw heb gymorth Pinewood Group Limited

2.15 Rhwng Tachwedd 2016 a Hydref 2017, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Pinewood a Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar:

- newidiadau i rôl Pinewood yn y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau; a
- rheolaeth Pinewood o Pinewood Studio Wales, oedd ddim yn llawn ac yn gwneud colled i Pinewood²¹.

O 25 Mehefin 2017 ymlaen, cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai rhwymedigaeth Pinewood i dalu rhent ar gyfer cyfleusterau Gwynllŵg yn cael ei gohirio, yn amodol ar ganlyniad terfynol y trafodaethau²².

2.16 Yn ystod y cyfnod hwn, bu newid ym mherchnogaeth ac arweinyddiaeth Pinewood²³. Mewn trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion newydd Pinewood, daeth yn amlwg bod yna awydd ymhlith y ddau i gytuno ar fodel gweithredu newydd ar gyfer y stiwdio.

21 Er erbyn Medi 2016 roedd Pinewood wedi llwyddo i groesawu chwe chynhyrchiad a gofod busnes trwyddedig yn y stiwdio ar gyfer 20 cwmni, nid oedd y lefel o feddiannaeth gan gwmnïau cynhyrchu ffilmiau wedi cyrraedd y lefel a ddisgwyliid yn wreiddiol.

22 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.8, cafodd yr holl renti na gafodd eu talu eu setlo'n llawn fel rhan o'r broses o ail-drafod y cytundeb.

23 Gwerthwyd Pinewood Shepperton Plc i Venus Grafton Sarl ym mis Hydref 2016.

- 2.17 Yn 2017, penderfynodd tîm rheoli Pinewodd ddod â gweithgareddau i ben mewn perthynas â rheoli cronfeydd, gwasanaethau cynghori ar fuddsoddi mewn cronfeydd trydydd partiön, a buddsoddi yn ei gyllid ei hun mewn cynyrchiadau ffilm a theledu. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd nid oedd y gweithgareddau hyn yn cynrychioli craidd yr hyn roedd Pinewood yn ei gynnig, nac yn cynrychioli cyfran arwyddocaol o'u trosiant.
- 2.18 Gan fod y Cytundeb Cydweithredol wedi'i gysylltu'n gytundebol â phrydles y stiwdio, fe wnaeth y broses o ddod â'r Cytundeb Cydweithredol i ben ganiatáu i Pinewood ddod â'r brydles i ben yn gynnar.
- 2.19 Fe wnaethom gyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Dros Dro Pinewood, yn ogystal â Chyfarwyddwr Materion Corfforaethol y cwmni ar 16 Ebrill 2018. Fe ddywedwyd wrthym, yn eu barn nhw, fod agoriad stiwdio ffilm a theledu newydd gan Bad Wolf ym Mharc Trident, Caerdydd ym mis Mai 2017, wedi cael effaith andwyol ar ddeiliadaeth Pinewood Studio Wales, a bod nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd wedi disgyn o ganlyniad.
- 2.20 Mae Bad Wolf Studios Ltd wedi cael budd o becyn cyllid £9 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid wedi'i strwythuro o amgylch benthyciad cychwynnol o £4.5 miliwn i'w dalu'n ôl, ac y mae modd ei droi yn grant cyn gynted ag y bydd cerrig milltir o ran perfformiad yn cael eu cyflawni mewn cyfnod o 10 mlynedd. Bydd y cerrig milltir hyn yn ymwneud â pha mir broffidiol yw'r cwmni a faint o wariant sydd ar gynhyrchu yn economi Cymru o ganlyniad. Bydd y £4.5 miliwn sy'n weddill yn daladwy fel grant yn amodol ar gyflawni targedau gwario ar gynhyrchiant ychwanegol. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn prydlesu cyfleuster Wolf Studios Wales i Bad Wolf Studios Ltd ym Mae Caerdydd, ar delerau masnachol.
- 2.21 Yn wahanol i Pinewood Studio Wales, sydd ag uchafswm uchder bargod o 25 troedfedd²⁴, Wolf Studios Wales yw'r unig gyfleuster yng Nghymru sy'n gallu cynnig lle ag uchafswm uchder bargod o 57 troedfedd. Cyfeiriwyd at uchder y bargod mewn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mai 2017 a oedd yn hyrwyddo Wolf Studios Wales fel 'yn sicr o ddenu rhaglenni teledu o'r radd flaenaf a ffilmiau sydd â chyllidebau mawr o bob rhan o'r byd'.

24 Mae uchafswm uchder bargod o 25 troedfedd yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru a Pinewood fel ffactor a all gyfyngu ar ba mor addas yw'r stiwdio ar gyfer rhai mathau o gynyrchiadau.

- 2.22 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod y galw am gyfleusterau stiwdio yn amrywio wrth i gynyrchiadau fynd a dod, ond yn eu barn nhw, effeithiwyd ar y galw am safle Gwynllŵg yn sgil newid ffocws ar ôl i berchnogaeth Pinewood newid. Nid ydynt yn credu y cafwyd gostyngiad yn yr ymholiadau ar gyfer Pinewood ers agor Wolf Studios Wales. I'r gwrthwyneb, dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrthym bod Pinewood yn parhau i ganolbwyntio ar werthu'r lle mewn cyfleusterau stiwdio, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i gadw arbenigedd Pinewood o dan y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli newydd (nodir hyn yn **Rhan 3** yr adroddiad hwn). Dywedodd Pinewood wrthym hefyd fod y galw am stiwdios eraill Pinewood yn dal yn gryf yn y DU.
- 2.23 Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Sgrîn Cymru wedi cynnal deg ymweliad â'r stiwdio gyda chynyrchiadau mawr yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Dim ond dwywaith na chafodd Pinewood ei gynnwys a hynny o ganlyniad i ddewis y cynhyrhydd. Hyd yma, mae Wolf Studios Wales wedi bod yn gartref i gynyrchiadau Bad Wolf yn unig (roedd angen uchafswm uchder bargod uwch ar nifer o'r rhain) lle mae Pinewood wedi'i ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau'r BBC, Channel 4 a chwmnïau ffilm annibynnol.
- 2.24 Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod Sgrîn Cymru yn parhau i hyrwyddo Pinewood Studios Wales, Wolf Studios Wales a stiwdios eraill yng Nghymru yn gyfartal. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae lefel uchel o alw am gyfleusterau stiwdio Pinewood yn debygol o barhau i'r hydref. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrthym eu bod yn credo bod agor stiwdio sy'n cystadlu â nhw wedi cael effaith ar y galw am le ar safle Gwynllŵg ac nad yw'r hyrwyddo cyfartal gan Sgrîn Cymru ddim yn mynd i'r afael â hyn.

Rhan 3 – Y trefniadau rheoli diwygiedig o fis Tachwedd 2017

Ym mis Hydref 2017, terfynodd Llywodraeth Cymru y Cytundebau Prydlesu a Chydweithredol â Pinewood, a gohiriwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

- 3.1 Yng ngoleuni'r sefyllfa a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyngor ffurfiol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 29 Medi 2017 a gofynnwyd am ei gymeradwyaeth i:
 - dod â'r Cytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben;
 - dod â chytundeb prydles galwedigaethol presennol y stiwdio i Pinewood i ben ar 31 Hydref 2017; a
 - gohirio'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.
- 3.2 Ar gyngor Panel Sector y Diwydiannau Creadigol a'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau, daeth y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau o dan reolaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ar ôl hynny.
- 3.3 Yn y cyfamser, parhaodd trafodaethau â Pinewood i gyflwyno cytundeb rheoli stiwdio newydd erbyn dyddiad dod â'r brydles i ben ar 31 Hydref 2017.

Ym mis Tachwedd 2017, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'gytundeb gwasanaethau rheoli' tair blynedd newydd gyda Pinewood Studios Wales Ltd

- 3.4 Cymerodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyngor gan arbenigwyr annibynnol ar ddrafftio model gweithredu newydd ar gyfer Pinewood Studio Wales. Roedd Pinewood wedi ymrwmo i weithredu'n ddidwyll i drafod cytundeb newydd y gellid ei lofnodi erbyn dyddiad dod â'r Cytundeb Cydweithredol a'r brydles i ben.
- 3.5 Rhoddwyd 'Cytundeb Gwasanaethau Rheoli' newydd gerbron Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gan ei swyddogion ar 30 Hydref 2017. Mae'n cynnwys dwy ran sy'n ategu ei gilydd:
 - gwerthiant a marchnata'r stiwdio; a'i
 - broses weithredu a rheoli.

- 3.6 O dan delerau'r cytundeb newydd, byddai Pinewood yn parhau i weithredu'r stiwdio ar ran Llywodraeth Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru ddod â'r cytundeb i ben gan roi chwe mis o rybudd ar unrhyw adeg ar ôl blwyddyn gyntaf y cytundeb, a ddechreuodd ar 1 Tachwedd 2017. Byddai Pinewood hefyd yn parhau i hyrwyddo Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer dramâu teledu a ffilmiau.
- 3.7 O dan y cytundeb, byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'n llawn costau rhedeg y cyfleuster, ynghyd â thalu ffi rheoli Pinewood. Yn gyfnewid, byddai Llywodraeth Cymru yn cadw'r holl refeniw a dderbyniwyd gan Pinewood ar gyfer hyrwyddo a thrwyddedu'r stiwdio. Byddai'r rhain yn gwrthsefyll costau gweithredol yr adeilad. Byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am unrhyw elw a gynhrychir o weithredu'r stiwdio.
- 3.8 Byddai'r holl ymrwymiadau ariannol, fel rhent heb ei dalu, yn cael eu talu'n llawn fel rhan o'r cytundebau terfynu.
- 3.9 Mae'r elfennau allweddol sy'n gysylltiedig â dod â'r Cytundeb Cydweithredol i ben a symud ymlaen â Chytundeb Gwasanaethau Rheoli newydd yn unol â'r Cyngor Gweinidogol wedi'u crynhoi yn **Diagram 9**.

Diagram 9: elfennau allweddol sy'n gysylltiedig â dod â'r Cytundeb Cydweithredol i ben a symud ymlaen â Chytundeb Gwasanaethau Rheoli newydd

Byddai Llywodraeth Cymru yn:	Byddai Pinewood yn:
Talu'r costau blynyddol o reoli'r eiddo (gan gynnwys rheoli cyfleusterau, cyfraddau ac yswiriant)	Cael ffi reoli flynyddol gan Lywodraeth Cymru.
Etifeddu gwerth pob un o welliannau'r tenant i gyfleusterau Gwynllŵg.	Cael ad-daliad gan Lywodraeth Cymru am gostau ei wasanaethau cynhyrchu (yn amodol ar uchafswm blynyddol).
Cadw'r holl refeniw a gynhyrchir gan y stiwdio yn y dyfodol.	Cael taliad iawndal gan Lywodraeth Cymru am daliadau rhent a wnaed yn ystod y cyfnod ail negodi.
Cytundebu'n uniongyrchol gyda meddianwyr trwyddedig y swyddfeydd a'r cwmnïau cynhyrchu sy'n llogi'r gofod stiwdio.	

Ffynhonnell: gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

3.10 Roedd y Cyngor Gweinidogol a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn delio a therfynu'r contractau presennol (Prydles a Chytundeb Cydweithredol) yn datgan bod Pinewood wedi gwario tua £800,000 yn cynnal gwaith ac yn buddsoddi mewn offer. Aeth yn ei flaen i ddweud y byddai'r cytundeb terfynu yn cynnwys naratif yn nodi y byddai budd unrhyw newidiadau a wnaeth Pinewood i'r adeilad (gwelliannau'r tenant) yn aros ac yn dod i feddiant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym nad oes ganddynt restr o'r gwelliannau mae'r tenant wedi'u cwblhau hyd yma, a'u bod bellach wedi cael dod i feddiant Llywodraeth Cymru.

- 3.11 Dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrthym y cafwyd trafodaethau cyn y contractau gwreiddiol ynglŷn â'u cyfraniad at y stiwdio. Fe wnaethant nodi bod Penawdau'r Telerau (a oedd yn amodol ar y contract) ar yr amod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y gwaith gosod ac y byddai Pinewood yn cyfrannu £800,000²⁵ neu byddai Pinewood yn gwneud y gwaith gosod ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £1.8 miliwn (yn cynnwys TAW) tuag at y gost. Aethant ymlaen i ddweud y nad yw'r Cytundeb i Brydlesu yn cyfeirio at yr £800,000 ond ei fod yn rhoi manylion y gwaith y disgwylir i'r tenant ei wneud a bod gofyn i Lywodraeth Cymru gyfrannu £1.8 miliwn.
- 3.12 Cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ddod â'r contractau presennol i ben, a daeth y cytundeb gwasanaethau rheoli newydd i rym ar 1 Tachwedd 2017 am gyfnod o dair blynedd.
- 3.13 Yn unol â thelerau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu cost net flynyddol, a ddangosir yn **Diagram 10**. Mae un o gydrannau'r gost, sef y ffi rheoli sy'n daladwy i Pinewood, wedi cael ei hepgor o'r adroddiad hwn ar gais Pinewood²⁶. Felly, dangosir bod y gost net flynyddol yn £392,000, yn ogystal â'r ffi rheoli flynyddol.

²⁵ Dros gyfnod 15 mlynedd y brydles.

²⁶ Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn bod dadl Pinewood y byddai rhoi'r wybodaeth hon yn y parth cyhoeddus yn debygol o wneud niwed sylweddol i fuddiannau masnachol Pinewood drwy roi mantais annheg i'w gwsmeriaid, i'w gystadleuwyr ac i'w gyflenwyr wrth negodi prisiau yn y dyfodol..

Diagram 10: Y gost net flynyddol i Lywodraeth Cymru o weithredu'r cytundeb gwasanaethau rheoli²⁷

	£
Costau rhedeg y stiwdio yn flynyddol	890,000
Ad-dalu costau cynhyrchu Pinewood	216,000
Llai: Refeniw stiwdio a ragwelwyd	(714,000)
Costau gweithredu net blynyddol cyn y ffi rheoli	392,000
Manteision: Ffi rheoli yn daladwy i Pinewood	[wedi'i hepgor]
Cost gweithredu net flynyddol	[wedi'i hepgor]

3.14 Cafodd y rhagolygon refeniw blynyddol y stiwdio o £714,000 eu cyflenwi i swyddogion Llywodraeth Cymru gan Pinewood, ac yna eu cynnwys yn y cyflwyniad i Ysgrifennydd y Cabinet. Mae cyfanswm y costau gweithredu net yn **Diagram 10** yn cymryd bod y ffigur hwn yn realistig. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod dibynadwyedd y rhagolygon wedi'u profi a'u harchwilio gan swyddogion yn ogystal ag ymgynghorwyr eiddo annibynnol. Fodd bynnag, pan ddarparwyd y ffigur, ychwanegodd Pinewood y cafeat y gallai'r refeniw fod yn is oherwydd cystadleuaeth gynyddol Wolf Studios.

3.15 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw'r rhagolygon ariannol hyn yn cynrychioli gwerth da am arian. Fodd bynnag, yn eu barn nhw, roedd yn well ymrwymo i gytundeb tair blynedd gyda Pinewood gyda'r bwriad o gynhyrchu refeniw masnachol, o gymharu â'r costau o adael y safle'n wag wrth iddynt chwilio am denant newydd.

²⁷ Mae'r ffigurau a ddangosir fan hyn yn cynnwys TAW, lle bo'n berthnasol. Gall adennill rhai elfennau TAW wella'r canlyniad cyffredinol rhywfaint, ond mae hyn yn annhebygol o fod yn berthnasol.

3.16 Mewn sesiwn briffio i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar 29 Hydref 2017, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru, pe nad ymrwymir i gytundeb newydd â Pinewood, yna byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau cynnal eiddo blynyddol o tua £890,000 (gan gynnwys TAW), a gallent ddisgwyl dim ond tua £124,000 o incwm blynyddol o osod gofod swyddfa. Pe bai'r amcangyfrifon hyn yn fanwl gywir, mae'n debygol y byddai'r gost net flynyddol i Lywodraeth Cymru yn y sefyllfa amgen honno wedi bod yn £766,000.

Atodiad 1 – Ein dulliau archwilio

Cwmpas

Mae cwmpas yr adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i'n harchwiliad o'r cytundebau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac is-gwmnïau Pinewood rhwng 2014 a 2017. Yn benodol, rydym wedi edrych ar:

- prynu'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg, Caerdydd ym mis Chwefror 2014;
- y Cytundeb Cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Film Advisors Wales Ltd dyddiedig 17 Chwefror 2014; a'r
- Cytundeb Gwasanaethau Rheoli rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Studio Wales Cyf ar 1 Tachwedd 2017.

Rydym hefyd wedi archwilio'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid ydym wedi ystyried gwerth am arian y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn ei chyfanrwydd, adolygu unrhyw brosiectau unigol sy'n elwa o'r gyllideb neu wedi archwilio trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau'r cyllid.


Mae ein hadroddiad wedi'i greu ar sail 'ffeithiau'n unig', ac nid ydym felly wedi dod i gasgliadau na gwneud argymhellion sy'n codi o'n gwaith archwilio.

Dulliau

Wrth gynnal yr arolwg, rydym wedi:

- adolygu tystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a gwneud ymholiadau pellach i swyddogion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r dogfennau allweddol;
- cynnal ymweliad safle â Pinewood Studio Wales a chwrdd â swyddogion gweithredol Pinewood Group Limited; a
- chyn cyhoeddi, cytuno ar gywirdeb ffeithiol ein hadroddiad gyda Llywodraeth Cymru a'r enwau trydydd parti.

Atodiad 2 – Amserlen o'r digwyddiadau



Atodiad 3 – Dulliau cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel lleoliad cynyrchiadau ffilm a theledu sy'n creu effaith fawr

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o ddulliau a sefydliadau er mwyn annog cynhyrchwyr i ddewis Cymru fel lleoliad.

Cymorth Ariannol a Strategol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth i Pinewood Studios a Wolf Studios i sefydlu gofod stiwdio yng Nghymru.

Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru hefyd yn gallu cael mynediad i Gyllid Busnes Ad-daladwy Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfa Sgrîn Cymru) a Chronfa Twf Economaidd Cymru.

Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

£30 miliwn o gyllid masnachol ar gyfer cynyrchiadau teledu a ffilm.

£13.8 miliwn o gyllid wedi'i ddsbarthu hyd yma.

Sgrîn Cymru

Tîm wedi'i leoli o fewn sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru.

Mae Sgrîn Cymru yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim i gefnogi cynyrchiadau ffilm a theledu drwy sgowntio lleoliadau, trefniadau logistaidd a chymorth i ddod o hyd i griwiau a chwmnïau cyfleusterau.

Cronfa Sky Vision

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £200,000 ar y cyd â Sky Vision i ariannu rhaglenni ffeithiol ac adloniant newydd.

Mae cyllid datblygu, cyllid peilot a chyllid atodol ar gael, ac nid oes angen ad-dalu cyfran Llywodraeth Cymru ohono.

Mae cyllid ar gael i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru a chwmnïau'r DU sy'n cynhyrchu sioeau yng Nghymru.

Pinewood yn hyrwyddo Cymru

Yn wreiddiol, noddwyd Pinewood i hyrwyddo Pinewood Studios Wales a Chymru yn gyffredinol fel lleoliad ar gyfer ffilmio ac ôl-gynhyrchu.

O dan y cytundeb diwygiedig, caiff Pinewood ei dalu i hyrwyddo Pinewood Studios Wales.

Mae'r cytundeb yn nodi y dylai'r broses hyrwyddo gael ei gwneud drwy wyliau ffilm, marchnadoedd teledu a thimau gwerthiant.

Atodiad 4 – Y saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud mewn cynyrchiadau teledu a ffilm

Credyd treth

Gall ffilmiau sydd â chyllideb o dan £20 miliwn hawlio 25% o wariant y DU fel credyd treth. Gall ffilmiau sydd â chyllideb o dros £20 miliwn dderbyn 25% o'r £20 miliwn cyntaf ac 20% o unrhyw wariant ychwanegol. Mae buddsoddiadau credyd treth yn golygu talu cronfeydd i'r cynhyrchiad ymlaen llaw ar gyfer y credyd treth a dderbynnir. Felly ystyrir y buddsoddiadau hyn fel y math mwyaf diogel o fuddsoddiad y gellir ei wneud gan fod y posibilrwydd o'i adennill yn uchel. Gan amlaf ceir gwarant y caiff yr arian ei ddychwelyd yn llawn o fewn 12 mis i gwblhau'r gwaith.

Cyn-werthu

Caiff hyn ei wneud i ddsbarthwyr cyn i'r ffilm gael ei chynhyrchu. Mae buddsoddiadau cyn-werthu yn debyg i fuddsoddiadau credyd treth gan eu bod yn golygu talu ymlaen llaw am ffigurau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer gwerthiant sydd eisoes wedi'i wneud. Mae hyn yn golygu bod y buddsoddiadau bron bob amser yn cael eu hadennill yn llawn o fewn chwe mis i'r gwaith gorffenedig gael ei gymeradwyo. Felly mae siawns uchel o adennill y buddsoddiadau.

Cyllid llenwi bwlch

Mae cyllid llenwi'r bwlch wedi ymrwymo yn erbyn tiriogaethau lle na cheir gwerthiant ac yn seiliedig ar amcangyfrifon gwerthu a ddarperir gan yr asiant gwerthu. Byddai Pinewood yn asesu amcangyfrifon yr asiant gwerthu ac yn cynhyrchu ffigur 'cwmpasu', a fyddai'n seiliedig ar werthiant isel gyda'r ffoedd cysylltiedig wedi'u tynnu. Mae hyn yn arwain at ffigur diogel y gellid ei adennill o leiaf yn rhannol oni bai bod y cynhyrchiad yn fethiant neu lle ceir fawr ddim diddordeb neu ddim diddordeb o gwbl yn y ffilm. Mae'r posibilrwydd o adennill rywle'n y canol. Byddai adennill yn digwydd pan caiff y gwerthiant ei wneud ar ôl i'r gwaith gorffenedig gael ei gymeradwyo.

Mesanîn

Mae cyllid Mesanîn yn seiliedig ar gynyrchiadau sy'n cyflawni gwerthiant uwch na'r amcangyfrifon isel a ddefnyddir ar gyfer cyllid llenwi bwlch. Gallai'r gwerthiant fod yn uwch oherwydd cast adnabyddus yn gysylltiedig â'r cynhyrchiad neu asiant gwerthu sydd ag enw da am wthio gwerthiant cryf. Gan fod y buddsoddiad yn seiliedig ar ragori ar y ffigur diogel, mae'r posibilrwydd y gellir ei adennill yn isel a byddai'n cynnwys premiwm uwch. Byddai'r broses o adennill yn dechrau ar ôl i bob un o'r dulliau ariannu uchod gael eu haddennill, gan amlaf yn agos at ddyddiad rhyddhau'r cynhyrchiad neu ar ôl hynny. Recoupment would begin after all of the above financing has been recouped, normally close to or following the production's release.

Ecwiti

Cyllid ecwiti yw'r dull o ariannu sy'n wynebu'r risg uchaf o dan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan mai buddsoddiadau ecwiti gan amlaf yw'r arian olaf i'w adennill mewn cynhyrchiad. Mae angen i'r cynhyrchiad werthu'n dda ac adennill ei fuddsoddiadau eraill yn llawn er mwyn i fuddsoddwyr ecwiti dderbyn enillion. Mae'r posibilrwydd y gellir adennill yn isel, a bydd yn cynnwys premiymau uchel.

Cyllid Busnes

Mae Cyllid Busnes Ad-daladwy yn gymorth ariannol dewisol i fusnesau cymwys i ariannu buddsoddiadau cyfalaf a phrosiectau creu swyddi. Mae cefnogaeth ar gael i gynyrchiadau ffilm a theledu cymwys ar lefel sydd wedi'i drafod ymlaen llaw. Rhaid i'r gefnogaeth fod yn is na'r trothwy gymorth gwladwriaethol a rhaid iddo fod yr isafswm sy'n ofynnol i'r prosiect fynd yn ei flaen. Ni ellir ad-dalu cyllid ar gyfer prosiectau symudol, lle gellid cynnal y prosiect mewn gwlad arall, ac mae'n rhaid ad-dalu cyllid ar gyfer prosiectau sydd ddim yn symudol 100%. Er y bydd lefel y risg ar gyfer cynyrchiadau yn cael ei asesu'n unigol, yn gyffredinol mae'r posibilrwydd y gellir adennill yn isel.

Cyllid Datblygu

Mae cyllid datblygu yn ariannu datblygiad cynyrchiadau, cyn eu comisiynu. Fel rhan o'r cytundeb datblygu, mae Llywodraeth Cymru yn neilltuo 50% o ddeunyddiau datblygu a hawlfraint a fyddai'n cael eu hail-neilltuo i'r cynhyrchiad wrth ad-dalu'r arian. Maent hefyd yn cael yr opsiwn i ddarparu cyllid cynhyrchu llawn, os ydynt yn dymuno. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn premiwm o 50% ar eu buddsoddiad, sy'n cael ei ad-dalu ar ddiwrnod cyntaf y saethu. Mae'r posibilrwydd y gellir ei adennill yn isel, oherwydd nifer y cynyrchiadau sydd byth yn symud o'r broses ddatblygu i'r broses gomisiynu.

Atodiad 5 – Cynyrchiadau a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, 2014-2018

Mae'r tablau hyn yn cynnwys y buddsoddiadau benthyciadau unigol, yr arian gafodd ei adennill (bancio) hyd at 31 Mai 2018 a gweddill pob prosiect a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Darparwyd y ffigyrau hyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018, a dylid nodi bod y prosiectau mewn gwahanol gamau yn eu datblygiad. Nid yw rhai o'r prosiectau wedi elwa hyd yma o'u rhyddhau mewn sinemâu rhyngwladol neu ar y teledu, a bydd arian yn parhau i gael ei adennill drwy werthiant ychwanegol.

Mae Pinewood hefyd wedi darparu eu dadansoddiad eu hunain i ni er bod rhai gwahaniaethau bach rhwng y gwerthoedd adennill oherwydd gwahaniaethau bach o ran amser – mae'r mwyaf o'r rhain mewn perthynas â The Collection, lle maent yn dangos ei fod wedi adennill £192,631.

Rheolwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gan Pinewood tan fis Medi 2017, ac fe'i rheolwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru.

Diagram 11: prosiectau a arianwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau dan reolaeth Pinewood (Chwefror 2014 tan Medi 2017)

Prosiect	Gwerth Buddsoddiad (£)	Swm wedi'i adennill tan fis Mai 2018 (£)	Elw/(Colled) Net hyd yma (£)
Take Down	3,144,000	959,824	(2,184,176)
Their Finest	2,000,000	2,049,985	49,985
The Collection	1,750,000 ²⁸	119,075	(1,630,925)
Show Dogs	1,565,789 ²⁹	0	(1,565,789)
Journey's End	850,000	630,860	(219,140)
Don't Knock Twice ³⁰	629,516	496,064	(133,452)
Minotaur	25,500	0	(25,500)
Lionel the First	25,000	0	(25,000)
Jack Staff	25,000	0	(25,000)
Cyfanswm	10,014,805	4,255,808	(5,758,997)

²⁸ Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £600,000 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

²⁹ Mae gwerth y buddsoddiad yn cynnwys £361,842 o gyllid grant o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

³⁰ Derbyniodd Don't Knock Twice hefyd £75,000 o gyllid grant o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru.

Diagram 12: prosiectau a arianwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau dan reolaeth Llywodraeth Cymru (Medi 2017 ymlaen)

Prosiect	Gwerth Buddsoddiad (£)	Swm wedi'i adennill tan fis Mai 2018 (£)	Elw/(Colled) Net hyd yma (£)
Trampires ³¹	2,000,000	0	(2,000,000)
Eternal Beauty	1,050,000	0	(1,050,000)
Bang	350,000	0	(350,000)
Tiny Rebel	317,500	0	(317,500)
Goose Green	25,000	0	(25,000)
Cyfanswm	3,742,500	0	(3,742,500)

Diagram 13: Buddsoddiadau'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn gyffredinol

	Gwerth Buddsoddiad (£)	Swm wedi'i adennill tan fis Mai 2018 (£)	Elw/(Colled) Net hyd yma (£)
Cyfanswm:	13,757,305	4,255,808	(9,501,497)

31 Derbyniodd Trampires £652,572 o gyllid grant hefyd o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru